**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025**

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi absenoldeb y flwyddyn yn nheitl y Rheoliadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 2(1). Mae'r flwyddyn wedi'i nodi'n gywir yn y testun Cymraeg ac mae'r troednodyn i'r ddau destun yn nodi'r cyfeiriad yn gywir. Rydym o'r farn bod hyn yn annhebygol o ddrysu'r darllenydd; fodd bynnag, byddwn yn cysylltu â Chofrestrydd yr Offerynnau Statudol ynglŷn ag addasrwydd slip cywiro yn yr achos hwn.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi sylwadau'r pwyllgor ynglŷn â'r pwynt adrodd hwn. Byddwn yn ceisio diwygio hyn drwy offeryn statudol pellach y bwriedir ei wneud cyn diwedd tymor y Senedd.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt adrodd; fodd bynnag, mae'r paragraff wedi'i nodi'n gywir yn fersiwn Argraffydd y Brenin ar legislation.gov.uk[1] ac nid oes angen diwygiad.

[1] https://www.legislation.gov.uk/wsi/2025/690/pdfs/wsi_20250690_mi.pdf